**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion o Gyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 11eg Mai 2009 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cyngh T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| Cyngh S Frobisher (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngh M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngh B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngh G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngh T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyngh A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyngh E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyngh W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Cyngh W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyngh M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd); C Everett (Clerc); C Hanks, P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Cynorthwyol); G Griffiths (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); I Williams (Rheolwr Cefnogi Gweithrediadau); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau); Joanne West, KPMG.

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Cyngh G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngh P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyngh E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyngh J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Fairhead | Uwch Reolwr Diogelwch Tân |

1 COFNODION Y CYFARFOD OLAF

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2il Chwefror 2009 fel cofnod cywir o'r trafodion.

2 MATERION YN CODI

2.1 *3.2 – Fortek Rappel – Roedd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Colin Hanks wedi derbyn llythyr gan Fortek Rappel yn ymwneud â pharagraff 3.2 o'r adroddiad a gyflwynwyd.* ***PENDERFYNWYD dileu brawddeg olaf paragraff 3.2 o'r adroddiad er mwyn osgoi anghydfod.***

3 ARGYMHELLION GAN WEITHGOR CYNLLUNIO I LEIHAU RISG

3.1 Cyflwynwyd y papur i hysbysu Aelodau o gynigion gweithgor y Cynllun Lleihau Risg ar gyfer dogfen ymgynghori'r Cynllun Lleihau Risg.

3.2 Eglurodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y gweithgor lleihau risg wedi trafod y ddogfen ymgynghori'n fanwl mewn cyfarfod cynharach. Roedd y ddogfen wedi cael ei hysgrifennu mewn arddull gwahanol heb ddim cynlluniau gweithredu penodol. Gobeithir byddai'r fformat newydd yn codi trafodaeth gyda'r cyhoedd am y gwasanaethu hoffent weld Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei ddarparu.

3.3 Roedd pedair prif ran i'r ddogfen ymgynghori, sef: gweithio gyda phobl ifanc; system dyletswydd rhan amser; cyd-ymateb; effeithiolrwydd. Roedd y gweithgor lleihau risg wedi argymell y newidiadau canlynol i'r ddogfen:

- Tudalen 7 – pwysleisio fod Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd yn ddyletswydd statudol nawr.

- Gweithio gyda phobl ifanc - manylion pellach ar gostau'r cyrsiau a sut maen nhw'n cael eu hariannu ar hyn o bryd. Ychwanegu slogan 'mae atal yn costio llai na chosbi'. Newid y cwestiwn ymgynghori 'os fydd arian allanol yn cael ei dynnu nôl, a ddylai'r Awdurdod Tân ac Achub gyfeirio adnoddau er mwyn parhau i gyflwyno'r gwaith hwn.'

- System Dyletswydd Rhan Amser - tudalen 19 - angen ail eirio'r paragraffau olaf. Angen pwysleisio'r gefnogaeth i'r System Dyletswydd Rhan Amser. Cwestiwn ymgynghori ar dudalen 20 i ddarllen 'ydych chi'n cytuno i ni ailgyfeirio adnoddau o ardaloedd eraill o'r gyllideb a chynyddu hyblygrwydd i gynyddu argaeledd mewn ardaloedd gwledig?'.

- Cyd-ymateb – rydym ni'n darparu hyfforddiant cymorth cyntaf (gan gynnwys cwrs atgoffa) i bersonél fel gofyniad iechyd a diogelwch. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn darparu hyfforddiant cyd-ymateb i sefydliad arall ond nid i weithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Fe ddylai'r cwestiwn

ymgynghori fod yn sefydledig ar farn y cyhoedd os pa un ai ddylai'r Awdurdod gyflwyno cyd-ymateb o ystyried yr anawsterau ariannol a chyflogaeth.

- Cyflogaeth – tabl ar dudalen 25 – cwestiwn ymgynghoriad i fod yn fwy uniongyrchol ac i ofyn pa opsiwn o'r tabl ddylai'r Awdurdod fynd ar ei ôl.

3.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) cytuno gyda diwygiadau y gweithgor Lleihau Risg;**
**(ii) byddai'r ddogfen yn cael ei hanfon i aelodau o'r Panel Gweithredol yn gofyn am unrhyw sylwadau o fewn 7 diwrnod;**
**(iii) nodi byddai'r ddogfen yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod llawn ar 15fed Mehefin am gymeradwyaeth gydag ymgynghoriad cyhoeddus yn cychwyn yn fuan wedi hyn.**

4 MONITRO PERFFORMIAD

4.1 Rhoddodd Shân Morris gyflwyniad byr o'r ffigyrau perfformiad amodol ar gyfer 2008-09.

4.2 O gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol:

- mae nifer yr holl alwadau a dderbyniwyd wedi cynyddu. Y rheswm dros hyn oedd oherwydd bod y ffigyrau'n cael eu mesur yn fwy manwl yn dilyn newidiadau yn y system anfon allan;

- roedd tanau wedi gostwng yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd cynnydd bach mewn tanau simdde, yn bosib oherwydd bod pobl yn ceisio arbed arian drwy gael tanau coed neu glo dros y gaeaf diwethaf;

- roedd gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, heb dân, wedi cynyddu - roedd hyn yn ganlyniad i newidiadau yn y weithdrefn anfon allan i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn hytrach na chynnydd mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd;

- roedd tanau bwriadol wedi gostwng.

4.3 Roedd ffigyrau eraill fel y rhai oedd yn gysylltiedig gyda thân yn y cartref yn arddangos proffil tebyg i'r llynedd.

4.4 Nodwyd fod 31,180 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref wedi cael eu gwneud. Roedd yr Aelodau'n dymuno cofnodi eu diolch a'u llongyfarchiadau i'r holl staff gymrodd ran.

4.5 Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhawyd byddai cartrefi a busnesau o risg uchel yn derbyn ymweliadau dilynol rheolaidd. Roedd gan y larymau oedd yn cael eu gosod mewn eiddo domestig fatri 10 mlynedd ac fe ddisgwylir i'r System Rheoli Cofnodion newydd helpu gyda'r rhaglen o ymweliadau dilynol.

4.6 Atgoffodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau na fyddai 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn gynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod a byddai hyn yn rhan o waith y Cynllun Lleihau Risg.

4.7 Nodwyd fod Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân wedi ailymgynnull. Rhan o'i gylch gwaith oedd adolygu trefniadau sefydlwyd gydag Awdurdodau Lleol ac amrywiaeth o asiantaethau am gyfeiriadau.

4.8 **PENDERFYNWYD nodi'r cyflwyniad a'r wybodaeth a dderbyniwyd.**

Rhan II

5 RHAGLEN CYFALAF 2009-10

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi diweddariad i Aelodau ar raglen gyfalaf yr Adran Rheoli Cyfleusterau.

5.2 Roedd y gwaith moderneiddio a chydymffurfiad ym Miwmares, Bwcle a'r Waun wedi eu cwblhau erbyn hyn. Roedd gwaith ar orsaf dân Llangefni i gychwyn yn yr haf a disgwylir ymateb gan Gyngor Sir Gwynedd ar ddarn addas o dir ar gyfer gorsaf dân newydd yn Nefyn. Roedd Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl wedi ei chwblhau ond roedd arian wedi cael ei roi o'r neilltu o fewn cyllideb y prosiect o drawsnewid y modurdai yn gyfleusterau storio ychwanegol a byddai'r prosiect bychan hwn yn cael ei anfon am dendr yng nghanol mis Mai 2009. Roedd prosiect Betws y Coed i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2010.

5.3.1 Canolfan Adnoddau Triphlyg Wrecsam (heddlu, ambiwlans a thân) - roedd yr achos busnes amlinellol wedi cael ei gyflwyno i'r Cynulliad. Wedi iddo gael ei gymeradwyo, byddai achos busnes llawn yn cael ei lunio ac yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad erbyn Chwefror 2010 gyda golwg ar gychwyn adeiladu yn fuan wedyn.

5.3.2 Hysbysodd y Trysorydd yr Aelodau byddai'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hadolygu er mwyn cwrdd â chostau'r ganolfan oherwydd yr hinsawdd economaidd. Disgwylir i'r setliad ariannol Llywodraeth Leol effeithio'r arian cyfalaf gymaint ag refeniw.

5.4 Byddai gwaith ar orsafoedd a safleoedd tân oedd angen eu diweddaru i gydymffurfio gyda deddfwriaeth anabledd a

chydraddoldeb yn cael ei wneud yn ystod 2009/10 i gwrdd ag anghenion hyd ag y mae modd.

5.5 Gorsaf Dân Glannau Dyfrdwy – roedd astudiaeth ac adroddiad dichonolrwydd wedi dod i'r casgliad mai'r datrysiad fwyaf cost effeithiol fyddai i foderneiddio ac ymestyn yr orsaf dân bresennol. Ffodd bynnag yn unol gyda matrics buddsoddiad cyfalaf, gorsaf dân Wrecsam oedd y flaenoriaeth ar hyn o bryd.

5.6 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.**